

**“ Dywedwch
wrthym
unwaith...”**

**...ac fe
wnawn ni
bopeth arall”**

**Mae Cyngor
Sir Penfro yn
cydweithio â'r
Adran Gwaith a
Phensiynau er
mwyn darparu
gwasanaeth
newydd i'ch
cynorthwyo chi
pan fydd rhywun
wedi marw.**

Mae llawer o bethau sy'n gorfod cael eu gwneud, ar adeg pan fyddwch chi'n dymuno peidio â'u gwneud hwy mae'n debyg. Un o'r pethau hyn yw cysylltu ag adrannau'r Llywodraeth a gwasanaethau'r cyngor lleol yr ydych chi'n gorfod rhoi gwybod iddynt.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn golygu y cewch chi 'ddweud wrthym unwaith' ac fe fyddwn ni'n rhoi gwybod i wasanaethau eraill y Cyngor a'r Llywodraeth, ar eich rhan.



Sut y gall y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' eich cynorthwyo chi

Pan fydd rhywun wedi marw, mae eu marwolaeth yn gorfod cael ei cofrestru gyda'n Cofrestrydd.

Ar ôl gwneud hynny, efallai y bydd yn rhaid cysylltu â nifer o sefydliadau eraill er mwyn iddynt hwy gael yr un wybodaeth.

Sut y gallwch gysylltu â ni er mwyn defnyddio'r gwasanaeth

Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru'r farwolaeth gyda'r Cofrestrydd, gallwch chi ddefnyddio'r gwasanaeth mewn dwy ffordd wahanol:

- **Yn bersonol** – Os ydych yn dymuno dod i mewn a defnyddio'r gwasanaeth yn bersonol bydd rhaid ichi ddweud hynny wrth y Cofrestrydd wrth ichi drefnu apwyntiad i gofrestru'r farwolaeth.

Gallwch drefnu apwyntiad yn y Swyddfa Gofrestru trwy ffonio (01437) 775176. Mae ein swyddfa ar agor o ddydd Llun i Gwener rhwng 9am a 5pm.

- **Dros y ffôn** – Pe byddai'n well gyda chi gael gair â rhywun ar y ffôn gallwch ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 0800 085 7308.

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i Gwener rhwng 8 y bore ac 8 y nos. Gallwch ffonio'r rhif am ddim os byddwch chi'n defnyddio tirwifren BT, ond efallai y bydd darparwyr eraill, gan gynnwys darparwyr ffonau symudol, yn codi tâl arnoch.

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth?

Byddwn yn gallu rhoi gwybod i'r sefydliadau canlynol os bydd rhaid:

- **Yr Adran Gwaith a Phensiynau**
 - Y Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalyddion
 - Canolfan Byd Gwaith
 - Y Tîm Iechyd Tramor

- **Y Weinyddiaeth
Amddiffyn**

- Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

- **Cyllid a Thollau Ei
Mawrhydi**

- Budd-dal Plant
- Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
- Trethiant Personol

- **Gwasanaeth
Hunaniaeth a Phasbort**

- **Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau
(DVLA)**

- **Swyddfa Budd-dal Tai**

- **Swyddfa Budd-dal
Treth y Cyngor**

Gallwn gysylltu â'r adrannau canlynol hefyd, os ydych chi'n gofyn inni wneud hynny:


- Swyddfa Budd-daliadau Treth y Cyngor
- Treth y Cyngor
- Casglu taliadau am Wasanaethau'r Cyngor
- Llyfrgelloedd
- Gwasanaethau Etholiadol
- Bathodynnau Glas

- Gwasanaethau i Oedolion
- Gwasanaethau i Blant
- Tai Cyngor

Fe allai'r rhestr hon newid ac mae'r rhestr ddiweddaraf un i'w gweld ar ein gwefan yn www.pembrokeshire.gov.uk/tellusonce

Sut y byddwn yn trin yr wybodaeth a roddwch inni

Bydd yr wybodaeth a roddwch inni yn cael ei thrin yn ddiogel a chydgyfrinachol. Bydd y sefydliadau y cysylltir â hwy yn defnyddio'r wybodaeth i ddiweddarau cofnodion; terfynu gwasanaeth, budd-daliadau a chredydau fel y bo'n briodol; a datrys unrhyw faterion sydd heb gael eu datrys. Efallai y byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffyrdd eraill, ond dim ond mewn modd a ganiateir gan y gyfraith.



Gwybodaeth y bydd arnoch ei hangen er mwyn defnyddio'r gwasanaeth

Rydym yn dymuno sicrhau y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth iawn i unrhyw sefydliadau a gysylltw'n ar eich rhan. Felly bydd yn rhaid inni gael yr wybodaeth ganlynol am y person sydd wedi marw:

- Ei rif Yswiriant Gwladol a'i ddyddiad geni
- Manylion unrhyw fudd-daliadau neu wasanaethau yr oedd e/hi'n eu derbyn
- Eu tystysgrif marwolaeth
- Eu Trwydded Gyrru/Rhif eu Trwydded Gyrru (os ydych am i ni hysbysu'r DVLA)
- Eu pasbort/Rhif eu Pasbort (os ydych am i ni hysbysu'r Gwasanaeth Pasbort)

Ar ben hynny fe allem ofyn ichi am wybodaeth ynghylch:

- Eu câr agosaf
- Unrhyw wŷr, gwraig neu bartner sifil sy'n goroesi
- Y person sy'n ymdrin â'u hystâd

Mae'n rhaid i chi gael caniatâd y bobl a restrir uchod os ydych chi'n mynd i roi inni unrhyw wybodaeth amdanynt.

Os taw chi yw'r câr agosaf, efallai y bydd eich hawl i gael budd-daliadau yn newid; felly byddwch cystal â sicrhau bod eich rhif Yswiriant Gwladol chi wrth law pan fyddwch yn cysylltu â ni.

Os nad chi yw'r câr agosaf, na'r person sy'n ymdrin ag ystâd y person ymadawedig, rydych chi'n dal i allu defnyddio'r gwasanaeth os oes gyda chi'r awdurdod i weithredu ar eu rhan.

O ran yr holl sefydliadau sy'n talu budd-dal/credyd i chi neu'n darparu gwasanaeth i chi, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gan bob un ohonynt wybodaeth gywir a diweddar amdanoch.

Am ragor o wybodaeth cofiwch ffonio 01437 775176

